

Clwb Tennis Llantrisant

Mae'r niferoedd hyfforddi gyda'r Garfan Dennis yn uwch nag erioed ar y cyrtiau yng Nghlwb Tennis Llantrisant, gydag ymhell dros 100 o blant iau ac oedolion yn mynychu bob wythnos. Mae nifer o aelodau iau yn cystadlu mewn cystadlaethau lleol, ac mae timau ychwanegol wedi chwarae i'r clwb yng nghynghreiriau'r haf a'r gaeaf eleni. Maen nhw hefyd wedi ail-lansio eu Noson Gymdeithasol Gymysg poblogaidd er mwyn cwmpasu pob lefel chwarae.

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn lle mae'r clwb wedi diogelu dyfodol tennis yn Llantrisant. Wedi cymryd prydles 10-mlynedd a gosod technoleg-gât o'r radd flaenaf gydag archebu ar-lein, fe osododd y clwb lifoleuadau LED. Mae hyn yn caniatáu i'r clwb wneud arbedion ynni sylweddol ac yn caniatáu i'r chwaraewyr a'r cyhoedd chwarae drwy gydol y flwyddyn.

